| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **8 TACHWEDD 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – LATE SHOP, 13 FFORDD CAERGYBI, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**CAIS**

Atodir cais i amrywio trwydded eiddo Late Shop, 13 Ffordd Caergybi, Bangor uchaf, LL57 2EG oddi wrth deilydd y drwydded Melanie C Jones.

Cyflwynir y cais am ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol o ddarparu lluniaeth hwyr y nos a gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo.

Gweler y manylion yn y ffurflen gais mewn perthynas â'r camau a bwriedir eu cymryd gan yr ymgeisydd i sicrhau cydymffurfiad gyda'r amcanion trwyddedu.

Argymhellir oriau gweithgaredd trwyddedig fel a ganlyn –

| | **TRWYDDED GYFREDOL** | **TRWYDDED ARFAETHEDIG** |
|---|---|---|
| Dyddiau | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** |
| **Sul- Mawrth** | 23:00 – 02:00 | 23:00 – 02:30 |
| **Merch - Iau** | 23:00 - 02:00 | 23:00 – 03:00 |
| **Gwen - Sad** | 23:00 - 02:00 | 23:00 - 03:30 |
| | **Oriau gwerthu alcohol oddi ar y r eiddo** | **Oriau gwerthu alcohol oddi ar y r eiddo** |
| **Sul- Mawrth** | 08:00 – 02:00 | 08:00 – 02:30 |
| **Merch - Iau** | 08:00 - 02:00 | 08:00 – 03:00 |
| **Gwen - Sad** | 08:00 - 02:00 | 08:00 - 03:30 |
| | | |

**Noder** fod yr oriau agor cyfredol ac arfaethedig ar gyfer yr eiddo yw 24 awr y diwrnod , 7 diwrnod yr wythnos.

**YMGYNGHORIADAU**

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Aelodau lleol | 2 e bost - gwrthwynebiad |
| Aelodau unigol a Chyngor Dinas Bangor | 4 e bost - gwrthwynebiad |
| Preswylydd cyfagos | Llythyr - gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | 2 e Bost - amodau , dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr - dim gwrthwynebiad |

**CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD**

**Aelodau Lleol – Cyngor Gwynedd**

Derbyniwyd e bost yn gwrthwynebu gan ddau o aelodau lleol , yn bennaf ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus oherwydd posibilrwydd o gynnydd mewn sbwriel a sŵn.

Noder fod yr eiddo yng nghanol ardal breswyl. Mynegwyd pryderon yn ogystal y byddai ymestyniad mewn oriau yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn.

**Cyngor Dinas Bangor**

Derbyniwyd tri e bost gan gynghorwr unigol ac un e bost gan Glerc y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus. Nodwyd fod yr oriau arfaethedig yn mynd i arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn, yn ogystal â chynnydd mewn niwsans sŵn a sbwriel ar y stryd.

**Preswylydd cyfagos**

Mae'r preswylydd yn byw yn agos i'r eiddo ac yn pryderu fod yr ymestyniad mewn oriau yn mynd i danseilio'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus; yn enwedig o safbwynt aflonyddwch oherwydd sŵn.

**Heddlu Gogledd Cymru**

Nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais am ymestyniad oriau. Safbwynt yr Heddlu yw bod yn briodol i holl drwyddedau eiddo gwerthu lluniaeth hwyr y nos ym Mangor fod yn gyfartal o ran oriau gweithgaredd trwyddedig, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodir fod yr Heddlu yn gofyn am gynnwys amodau ar y drwydded parthed TCC a Goruchwylwyr Drysau. Nodir yn ogystal fod yr Heddlu yn cydnabod fod Bangor Uchaf yn ardal breswyl; a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ymestyn yr oriau tuag at y penwythnos oherwydd hyn.

Gweler manylion llawn y gwrthwynebiadau ynghlwm a'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.